



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar  
gyfer Datblygu Gwledig;  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
European Agricultural Fund for  
Rural Development  
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

## Datganiad o Diddordeb Nodiadau Cyfarwyddyd

## CYNNWYS

Cyflwyniad	3
Gwybodaeth am y Broses Datgan Diddordeb	3
Amlinelliad o'r broses ymgeisio dau gam	4
Yr amserlen	6
Y cyllid sydd ar gael	6
Sut i wneud cais	7

## **CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn egluro sut y bydd y broses Datgan Diddordeb ar gyfer **Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020** yn cael ei gweithredu a sut y bydd cynigion yn cael eu dewis yn y cam hwn ac yn derbyn gwahoddiad i gyflwyno cais llawn o ganlyniad.
2. Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus. Bydd angen i chi gyfeirio at y canlynol hefyd
  - Meini Prawf y Datganiad o Ddiddordeb penodol a'r Ffurflen Gais ar gyfer y cynllun.
  - y Nodyn Cyfarwyddyd ar gyfer y Cynllun.

Mae'r rhain i'w cael drwy glicio'r ddolen isod:

3. <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/?skip=1&lang=cy>

## **GWYBODAETH AM Y BROSES DATGAN DIDDORDEB**

4. Mae'n ofyniad gan y Comisiwn Ewropeaidd nad yw mesurau Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn cael eu cyflawni ar sail system y cyntaf i'r felin. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn bwriedir i gynlluniau'r Rhaglen agor a chau'n rheolaidd gydol oes rhaglen 2014-2020, yn dibynnu ar yr arian sydd ar gael.
5. Bydd y broses ymgeisio ar gyfer cynlluniau economaidd-gymdeithasol Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn cael ei chynnal mewn dau gam. Y cam cyntaf fydd Datgan Diddordeb. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Datgan Diddordeb yn cael gwahoddiad i'r ail gam sef cyflwyno cais llawn.
6. Pan fo arian yn brin, mae'n rhaid ystyried nifer o ffactorau wrth benderfynu sut i ddyrannu cymorth grant. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - Rheoli disgwyliadau am y tebygolrwydd o lwyddiant
  - Cynnig cyfle cyfartal i ymgeiswyr wneud cais
  - Cael proses agored a thryloyw i ystyried cynigion
7. Bydd ceisiadau Datganiad o Ddiddordeb yn cael eu cyflwyno i gystadlu'n uniongyrchol yn erbyn ei gilydd a disgwyilir y bydd galw mawr am y grant sydd ar gael. Gwahoddir busnesau i gyflwyno cynigion ar-lein am fuddsoddiadau newydd. Gwahoddir sefydliadau'r trydydd sector a chyryff eraill fel colegau neu brifysgolion i

gyflwyno cynigion ar-lein am brosiectau. Bydd y cynigion hyn yn cael eu hasesu yn erbyn meini prawf a fydd yn dangos gwerth disgwylidig y buddsoddiad a'r cyfraniad y disgwylir iddo ei wneud tuag at amcanion Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.

8. Mae'r nodiadau cyfarwyddyd hyn yn nodi sut mae disgwyl i'r broses honno weithio a sut i wneud cais.

### **AMLINELLIAD O'R BROSES YMGEISIO DAU GAM**

9. Bydd y broses ymgeisio mewn dau gam. Y cam cyntaf fydd cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd roi amlinelliad o fuddsoddiad arfaethedig y prosiect yn egluro sut bydd y prosiect yn cyflawni yn erbyn pob un o'r meini prawf asesu ar gyfer y ffenestr datgan diddordeb honno. Gwahoddir ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Datgan Diddordeb i'r ail gam sef cyflwyno Cais Llawn.

#### **Cam cyntaf – Datgan Diddordeb**

10. Bydd meini prawf y Datganiad o Ddiddordeb yn cael eu pennu ar gyfer pob cynllun ac yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw ar wefan Llywodraeth Cymru (gweler y ddolen uchod). Nod y meini prawf yw didoli ymgeiswyr posibl yn unol â blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru a Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Gall y meini prawf newid dros amser neu ar gyfer ffenestri penodol er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau ym mlaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cyhoeddi ymlaen llaw ar wefan Llywodraeth Cymru.
11. Amcan lefel uchel y Cynllun yw darparu cymorth a fydd yn cyflawni Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 drwy gynyddu'r cynnyrch domestig gros yn yr economi wledig a bwriedir i'r meini prawf a bennwyd ganolbwyntio ar hynny. Dylai'r ymgeisydd egluro'n ddigon manwl sut bydd y buddsoddiad arfaethedig yn cyflawni yn erbyn yr amcan hwnnw a'r meini prawf penodol.
12. Gwahoddir busnesau neu sefydliadau cymwys i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer eu cynigion bras am fuddsoddiadau neu brosiectau newydd ym mhob ffenestr Datgan Diddordeb. Bydd y cynigion hyn yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf a gyhoeddwyd a fydd yn dangos gwerth disgwylidig y buddsoddiad a'r cyfraniad y disgwylir iddo ei wneud at gyflawni Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.

13. Bydd y Datganiadau o Ddiddordeb yn cael eu hasesu, eu sgorio a'u graddio yn nhrefn teilyngdod. Bydd cynigion am brosiectau'n cael eu dewis yn y drefn y rhoddwyd hwy nes bydd y cyllid sydd ar gael wedi'i ddyrannu neu fod uchafswm y ceisiadau wedi'i gyrraedd. Nid oes sicrwydd y bydd yr holl gyllid yn cael ei ddyrannu na bod uchafswm y prosiectau posibl yn derbyn gwahoddiad.
14. Yr unig sail a ddefnyddir i asesu pob cynnig fydd yr esboniad a roddwyd yn Ffurflen Gais y Datganiad o Ddiddordeb. Bydd yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf a bennwyd yng nghanllawiau penodol y Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer y Cynllun a'r ffenestr ymgeisio Datgan Diddordeb rydych yn gwneud cais amdani.
15. Dim ond y wybodaeth a geir yn y Datganiad o Ddiddordeb a gaiff ei hystyried. Ni dderbynnir unrhyw wybodaeth neu ddogfennau ychwanegol. Bydd yr asesiad yn cael ei wneud ar sail y wybodaeth a ddarparwyd ac os nad yw honno'n glir ni wneir ceisiadau am eglurhad neu esboniadau ychwanegol.
16. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru dderbyn y Datganiadau o Ddiddordeb erbyn y dyddiad cau. Ni ellir ystyried unrhyw Ddatganiad o Ddiddordeb a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau ar gyfer y cylch hwnnw.
17. Bydd unrhyw ffurflenni Datganiad o Ddiddordeb heb eu cwblhau'n llawn yn cael eu gwrthod.
18. Dylid cyflwyno Ceisiadau Datganiad o Ddiddordeb ar e-bost, bydd y cyfeiriad perthnasol yn y canllawiau Datganiad o Ddiddordeb penodol ar gyfer y Cynllun.
19. Nid oes sicrwydd y bydd cynigion yr ymgeiswyr yn cael eu derbyn yn y cam hwn.
20. Ar ôl arfarnu'r Datgan Diddordeb byddwch yn cael eich hysbysu am un o 2 ganlyniad;
  - a. Mae eich cynnig wedi'i ddewis ar gyfer y cam nesaf a byddwch yn cael gwahoddiad i gyflwyno cais llawn.
  - b. Nid yw eich prosiect wedi'i ddewis ar gyfer y cam nesaf. Nid yw gwrthod cynnig yn y cam Datgan Diddordeb yn eich atal rhag ailgyflwyno'r cynnig mewn ffenestri Datganiad o Ddiddordeb yn y dyfodol.

### **Yr Ail gam – Cais llawn**

21. Ar ôl i gynnig fynd trwy'r cam Datgan Diddordeb gwahoddir yr ymgeisydd i baratoi a chyflwyno cais ail gam llawn ar gyfer eu prosiect arfaethedig, ynghyd â dogfennau ategol fel cynllun datblygu busnes neu brosiect, cyfrifon blaenorol (lle y bo'n briodol); amcanestyniadau ariannol a llifoedd arian a gwybodaeth arall yn ôl yr angen.

22. Rhaid cyflwyno ceisiadau'r ail gam ar-lein drwy borth ar-lein Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Darperir canllawiau i bob ymgeisydd.
23. Rhaid cyflwyno ceisiadau llawn yr ail gam o fewn chwe mis i'r hysbysiad i gyflwyno cais llawn.
24. Rhaid i'r cais ail gam fod yn gyson â'r cynigion a amlinellwyd yn y Datganiad o Ddiddordeb a gymeradwywyd.
25. Bydd cais llawn yr ail gam yn cael ei arfarnu'n unol â Chanllawiau'r Cynllun a rheolau cymhwysedd. Byddant yn destun arfarniad diwydrwydd dyladwy a gwiriadau cymhwysedd a dim ond ar y pwynt hwnnw y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud i gynnig grant. Nid oes sicrwydd y bydd cynnig am brosiect yn cael ei gymeradwyo am gyllid grant.

### **YR AMSERLEN**

26. Disgwylir y bydd o leiaf ddwy ffenestr Datgan Diddordeb ar gyfer pob cynllun bob blwyddyn. Cyhoeddir y dyddiadau ar wefan Llywodraeth Cymru ar sail dwy flynedd dreigl, ac maent yn destun adolygiad. Bydd hyn yn galluogi ymgeiswyr i flaengynllunio eu cais i ddiwallu anghenion eu prosiect mewn perthynas â'r amserlen.
27. Rhaid cwblhau arfarniad Datganiad o Ddiddordeb o fewn 60 diwrnod i'r ffenestr Datgan Diddordeb gau.
28. Rhaid cyflwyno ceisiadau llawn yr ail gam o fewn deuddeg mis o'r hysbysiad i gyflwyno cais llawn.
29. Y bwriad yw gorffen arfarnu ceisiadau llawn cyn pen 90 diwrnod gwaith ar ôl eu derbyn. Gall arfarnu ceisiadau cymhleth, neu geisiadau ag iddynt broblemau o ran cymhwysedd, gymryd yn hirach. Os na fyddwch yn ymateb yn brydlon i gais am fwy o wybodaeth bydd y llinell amser hon yn ymestyn.
30. Mae'n rhaid i chi ystyried goblygiadau'r amserlenni a gwneud penderfyniad masnachol ynghylch a ydych am wneud cais am gymorth grant ar gyfer eich buddsoddiad ai peidio. Mae'n bwysig eich bod yn ystyried amserlen eich buddsoddiad arfaethedig a'r broses ymgeisio a dethol yn ofalus er mwyn cynnwys hyn yn eich cynlluniau o'r dechrau.

### **Y CYLLID SYDD AR GAEL**

31. Bydd swm dangosol o gyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer pob ffenestr. Bydd y swm yn cael ei gyhoeddi ymlaen llaw ar wefan Llywodraeth Cymru.

### **NIFER Y CEISIADAU AIL GAM LLAWN A GAIFF EU GWAHODD**

32. Bydd nifer dangosol y ceisiadau llawn a gaiff eu gwahodd ar gyfer pob ffenestr yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Dyma'r uchafswm sy'n bosib, a gall y nifer fod yn llai na hyn. Er enghraifft, os yw'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y ffenestr yn cael ei ddyrannu i lai o gynigion, mwy.

### **SUT I WNEUD CAIS**

33. Dylid cyflwyno ceisiadau Datganiad o Ddiddordeb ar e-bost. Mae'r cyfeiriad e-bost perthnasol yn y ddogfen Meini Prawf a Ffurflen Gais Datganiad o Ddiddordeb.
34. Gellir cyflwyno ceisiadau Datganiad o Ddiddordeb unrhyw bryd yn ystod y ffenestr Datgan Ddiddordeb. Bydd dyddiadau cau'r ffenestr yn wahanol i bob cynllun.
35. Sylwch fod angen cynnwys yr holl wybodaeth ar y ffurflen Datganiad o Ddiddordeb. Ni dderbynnir dogfennau ychwanegol na gwybodaeth ategol yn y cam Datganiad o Ddiddordeb.
36. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cais mynegi diddordeb a cheisiadau llawn yn destun yr [Hysbysiad Preifatrwydd](#). Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn prosesu ac yn defnyddio eich data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).